Castell y Blaidd



Awdur: Glenys Mair Lloyd
Lluniau: Janet Samuel

Gweithgareddau Llafar

Trafod (ar ffurf Pwyllgor)

Darllen Pennod 3: Pwyllgor y Bleiddiaid

Trafod pwyllgorau – y disgyblion i gynnig enghreifftiau o bwyllgorau maent yn gwybod amdanynt e.e. Cyngor Ysgol; Cyfarfodydd Staff; Cyngor Tref. Sut mae cynnal pwyllgor? Strwythur pwyllgor. Un cadeirydd, ysgrifennydd yn cadw cofnodion, cyfle i bawb leisio barn, angen gwrando ac ymateb.

Rhoi problem i'r disgyblion ei thrafod ar ffurf pwyllgor. Gellir trafod naill ai rhyw fater llosg yn yr ysgol neu'r ardal leol neu drafod problem y bleiddiaid 'Rhyfel neu heddwch yn erbyn y Brenin Brochwel o Fyd Dynion?'. Byddai'n ddiddorol sefydlu 2 neu 3 pwyllgor gwahanol o fewn y dosbarth i drafod yr un broblem. Mae grwpiau llai yn rhoi mwy o gyfle i bawb gyfrannu a gellir adrodd yn ôl ar ddiwedd y wers er mwyn cymharu penderfyniad pob grŵp.

Ceir cyfle hefyd i ailadrodd y gweithgaredd hwn wrth drafod problem benodol sy'n deillio o'r stori. Er enghraifft, Pennod 9: Herwgipio'r Trysor (tud. 48–49) a Phennod 12: Problem – beth ddylid ei wneud â Rina?

Dadl
Mae hela'n chwarae rhan amlwg yn y stori. Er bod hela â chŵn wedi ei wahardd yng Nghymru ers mis Chwefror 2005 mae'n dal i fod yn bwnc llosg. Gellir gofyn i'r disgyblion greu dadl o blaid neu yn erbyn hela, boed yng Nghymru neu ar lefel byd-eang. Bydd angen cyfle arnynt i ymchwilio i'r pwnc er mwyn cael ffeithiau i gefnogi eu dadleuon a cheir ambell erthygl ddefnyddiol ar y we fyd-eang.

Gweithgareddau Darllen

Ymateb i destun (Pennod 1)
- Darllen rhan o bennod 1, sef tudalennau 9–11 i'r disgyblion. Gofyn i'r disgyblion sylwi ar arddull yr awdur. Sut mae'r geiriau yn creu effeithiau yn y darn e.e. blanced borffor y nos; cymylau sinistr o fwg . . . fel niwl; chwipiai'r gwynt . . . yn fain fel cyllell; dawnsiai'r plu eira rhwng bysedd moel y brigau. Pa ddarlun a gawn ni yn ein meddyliau? Ail-ddarllen y detholiad fel dosbarth gan drafod y disgrifiadau. Beth mae'r awdur yn ceisio'i gyfleu? Trafod ystyr geirfa anghyfarwydd. Ceir cyfleoedd i ymestyn ymhellach wrth fynd ati i gasglu cymariaethau neu ansoddeiriau ayyb.

Llenwi'r bylchau (Pennod 4)
Mae'r gweithgaredd hwn yn seiliedig ar ddarn a welir ym mhennod 4. Ymarfer defnyddio berfau gorffennol '*-odd*' wrth gwblhau gweithgaredd cyfannu. ***Carden waith 1***

Cymharu dwy fersiwn o chwedl Melangell (Pennod 17)
Ym mhennod 17 ceir fersiwn o chwedl Melangell. Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen fersiwn gwahanol o'r stori a'u cymharu. Yn dilyn hyn gellir creu dwy restr: Pethau sy'n debyg / Pethau sy'n wahanol neu fynd ati i ysgrifennu fersiwn newydd a'i gyflwyno fel llyfryn o bosib i'r dosbarthiadau babanod. Gweler *Melangell*, Eiry Palfrey, Gwasg Gomer (ISBN 1 84323 755 5) am ysbrydoliaeth.

Gweithgareddau Ysgrifennu

Ysgrifennu Creadigol
Pennod 1 – Ogof y Bleiddiaid
(Gweler gweithgaredd darllen Pennod 1) Cyd-ddarllen dechrau Pennod 1 (tud. 9–11). Sbardun gwych ar gyfer ysgrifennu'n greadigol. Gellir naill ai ysgrifennu disgrifiad llawn neu ysgrifennu cerdd gan ddilyn esiampl Rina, y prif gymeriad. ***Carden waith 2***

Ysgrifennu Ffeithiol
Gofyn i'r disgyblion greu taflen wybodaeth ar y blaidd. Mae gweithgaredd o'r math hwn yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ymchwilio a darllen i gefndir y pwnc yn ogystal â defnyddio TGCh. wrth baratoi'r copi terfynol. Un llyfr diddorol a deniadol ar y pwnc yw *Galwad y Blaidd*, Cledwyn Fychan, Cymdeithas Lyfrau Ceredigion (ISBN 9781 8451 20481).

Ysgrifennu Dychmygus
Penodau 10 ac 11
Gofyn i'r disgyblion ddychmygu mai nhw yw Rina. Bydd angen iddynt gyfleu teimladau ac ymateb Rina i'r sefyllfa. Bydd angen iddynt gyfleu profiad yr herwgipiad gan y Brenin Brochwel. Sut le yw Llys Mathrafal iddi hi? Beth yw ei hofnau? Beth mae'n credu bydd yn digwydd iddi? ***Carden waith 3***.

Portread
Pennod 16 – Dewis Rina
Yn y bennod hon mae Rina'n cael gwybod mai 'merch o blith y bobl' yw hi ac mae'n gweld ei hadlewyrchiad am y tro cyntaf (tud. 87–89). Gofynnwch i'r disgyblion fynd ati i ysgrifennu portread o Rina ar sail y disgrifiad hwn. Ceir arweiniad gwych ar gyfer creu portread ar wefan BBC Cymru o dan yr adran Tacteg i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Ewch i http://www.bbc.co.uk/cymru/tacteg/cymraeg/

Cysylltiadau trawsgwricwlaidd

Daearyddiaeth Defnyddio'r cyfeiriadau at lefydd penodol ym Mhowys (e.e. Pennod 14 tud. 77–78) ar gyfer sbarduno gwaith map e.e. plotio'r daith o Lys Mathrafal yn Nyffryn Efyrnwy i Gwm Pennant.
Cyswllt gyda gwaith ar y tywydd. Sylwi beth yw effaith dynol a ffisegol y gaeaf hir yn y stori. Gellir hefyd astudio dywediadau am y tywydd ac arwyddion tywydd.

Gwyddoniaeth Ceir llawer o sôn am y goedwig a'i hanifeiliaid gwyllt yn y stori yn enwedig ym mhenodau 4 a 5. Gellir cysylltu hyn gyda phob math o waith ar 'Bethau Byw yn eu Hamgylchedd' e.e. ymchwilio i'r amrywiaeth o famaliaid sydd yng nghynefin y goedwig; sut maent yn addasu i'w hamgylchedd; astudio pam fod bleiddiaid a chathod gwyllt wedi diflannu o goedwigoedd Cymru erbyn heddiw a chyswllt hyn gyda'r gadwyn fwyd. Fel ymestyniad o hyn gellir edrych ar waith mudiadau fel y WWF sy'n ceisio achub anifeiliaid prin y byd.

Gorffennol y ferf *-odd*

Pan fyddwn yn dweud beth wnaeth rhywun (ef neu hi) yn y gorffennol gallwn ddefnyddio berfau sy'n gorffen gydag ***–odd***.

Darllenwch y darn isod yn ofalus. Mae sawl berf ***–odd*** ar goll. Ewch ati i lenwi'r bylchau gyda berfau addas. Cofiwch ddefnyddio prif lythyren ar ddechrau pob brawddeg.

Arweiniodd	**Dychrynodd**	**Rhyfeddodd**	**Sbeciodd**
Sbardunodd	**Gwelodd (2)**	**Edmygodd**	

Yn sydyn, wrth ymyl y goedwig lle roedd y Bleiddiaid yn cuddio, dyma un o'r Helwyr yn carlamu 'mlaen at flaen y gad.

Y Brenin!

_____ Rina at ei wisg – ei helmed o aur ac arian a'i darian gron o efydd. _____ heibio'r graig i gael gweld y darian yn well.

Roedd llun gafr a cheffyl a cheiliog arno. _____ ei wisg hela o ledr yr ychen. Y patrymau lliwgar ar ei grys o wlanen coch. Ei faelwisg o gadwyni arian. _____ bob modrwy ar ei fysedd, a phob tlws a thrysor ar hafn ei gleddyf, yn goch, yn las ac yn aur. Disgleirient yn yr awyr oer, glir, yn y goleuni newydd a lenwai'r Cwm.

Yn sydyn, _____ hi fflach o fetel ar ei felt. Ei ddagr. Mwy nag un! Rhes ohonyn nhw, pob llafn yn finiog ac yn greulon, a phob carn wedi ei gerfio mewn efydd neu ifori.

_____ Rina. Lle'n union oedd hi wedi gweld y Brenin hwn o'r blaen, tybed? Yn y castell arall?

Chwarddai'r Brenin yn gas. Fflachiau ei gleddyf i gyfeiriad Sha a'r Bleiddiaid. _____ ei geffyl gwyn. _____ ei Helwyr i'r frwydr.

Wedi gorffen?
Ewch ati i ysgrifennu brawddegau gwreiddiol yn defnyddio rhai o'r berfau ***–odd*** hyn.

Y Gaeaf

Dyma gerdd Rina am y Gaeaf (*Castell y Blaidd*, tud. 11):

Rhaeadrau wedi rhewi,

ar y creigiau,

fel dannedd

hen ddreigiau,

yn bigog

ac yn gas.

Ewch ati i ysgrifennu darn barddoniaeth am y gaeaf. Fel man cychwyn casglwch ansoddeiriau a disgrifiadau da am y gaeaf. Gallwch ddefnyddio'r llun hyn, a'r disgrifiadau o'r nofel fel sbardun.

_____

_____

_____

_____

_____

_____

COFIWCH:

- Pan fyddwch yn creu cerdd rhaid dewis eich geiriau'n ofalus
- Rydych yn ceisio tynnu llun gyda'r geiriau
- Nid cael pennill nac odl sydd yn bwysig ond chwarae gyda swn geiriau

Herwgipio!

Darllenwch benodau 10 ac 11 o'r nofel *Castell y Blaidd* gan Glenys Mair Lloyd. Sylwch yn arbennig ar yr hyn sy'n digwydd i Rina, y prif gymeriad.

Ewch ati

- Dychmygwch mai chi yw Rina. Ysgrifennwch hanes yr herwgipiad o'ch safbwynt chi.
- Beth ddigwyddodd i chi?
- Beth weloch chi?
- Sut oeddech chi'n teimlo? Yn ofnus? Yn flin?
- Beth ydych chi'n credu bydd y Brenin Brochwel yn ei wneud i chi?

Beth am ddechrau fel hyn?

Allwn i ddim credu'r peth – roedd y Brenin cas wedi fy nal ac yn waeth na hynny roedd yn fy nghario ymaith! Gweiddais nerth fy mhen am help ond allai'r Bleiddiaid wneud dim byd yn erbyn byddin y Brenin. Ceisiais ddianc ond roedd y Brenin yn fy nal yn rhy dynn ac yn gweiddi'n gas arna i. Ar ôl teithio heibio sawl pentref sylweddolais ein bod yn mynd i Lys y Brenin. Roedd hi'n dechrau nosi ac roedd ofn mawr arna i.

O'r diwedd daethom at y gaer . . .